Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Gweithwyr gofal cartref ar y Gofrestr

1 Mehefin 2020



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Cynnwys

1. Crynodeb..........................................................3

2. Oedran a rhywedd gweithwyr gofal cartref..........................4

3. Cymwysterau gweithwyr gofal cartref................................6

4. Cyflogaeth gweithwyr gofal cartref...................................8

5. Amrywiaeth gweithwyr gofal cartref.................................11

# 1. Crynodeb

Agorwyd y Gofrestr Gweithwyr Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ('y Gofrestr') i weithwyr gofal cartref ym mis Ebrill 2018 ac, o 1 Ebrill 2020 ymlaen, daeth yn orfodol i weithwyr gofrestru os oeddent yn gweithio yng Nghymru.

Oherwydd yr achosion o Covid-19, roedd rhai cannoedd o weithwyr o hyd wrthi'n gwneud cais ym mis Ebrill 2020 a chaniatawyd rhagor o amser iddynt gofrestru. Felly mae'r adroddiad proffil hwn yn edrych ar y Gofrestr ar 1 Mehefin 2020, pan oedd y rhan fwyaf o weithwyr bellach wedi cofrestru.

Ar 1 Mehefin 2020, roedd 19,637 o weithwyr gofal cartref ar y Gofrestr.

Mae gan 64 y cant o'r gweithwyr hyn ar y Gofrestr gymhwyster ymarfer. Mae 22 y cant wedi cofrestru ar sail cwblhau'r llwybr sefydlu a bydd yn ofynnol iddynt gwblhau cymhwyster o fewn tair blynedd. Mae 14 y cant wedi cofrestru ar sail datganiad gan eu rheolwr yn cadarnhau eu profiad a'u cymhwysedd (yr enw ar hyn yw cymhwysedd wedi'i gadarnhau). Gweler Adran 3 am ragor o fanylion.

Mae mwy na 99 y cant o'r gweithwyr sydd wedi cofrestru mewn gwaith ar hyn o bryd, gyda'r nifer fwyaf o'r rhain (48 y cant) yn gweithio yn y sector preifat ac 20 y cant ohonynt wedi'u cyflogi gan awdurdod lleol. Roedd 44 y cant ohonynt wedi dechrau yn eu rôl bresennol gyda'u cyflogwr o fewn y tair blynedd diwethaf, ond mae 20 y cant ohonynt wedi bod yn yr un rôl ers dros 10 mlynedd.

Mae'r proffil yn dangos i ni mai 44 yw oedran cyfartalog y gweithwyr, ond mae niferoedd tebyg yn fras ym mhob grŵp oedran. Mae mwyafrif y gweithwyr (84 y cant) yn fenywaidd. Mae mwyafrif y gweithwyr (96.5 y cant) yn wyn Prydeinig, Cymreig neu Wyddelig, ac mae 10 y cant ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae'r data hwn ar gael yn fanylach o adran 2 ymlaen.

**19,637**
o weithwyr gofal cartref ar y Gofrestr

**44**
oedran cyfartalog y gweithwyr

**10%**
yn siarad Cymraeg yn rhugl


# 2. Oedran a rhywedd gweithwyr gofal cartref

Mae Tabl 1 yn dangos bod mwyafrif y gweithwyr gofal cartref yn fenywaidd.

*Tabl 1 – Rhywedd gweithwyr gofal cartref*

| Rhywedd | Nifer y gweithwyr | Canran y gweithwyr |
|---|---|---|
| Benywaidd | 16,397 | 84% |
| Gwrywaidd | 3,240 | 16% |
| **Cyfanswm** | **19,637** | **100%** |

*Ffigur 1 – Rhywedd gweithwyr gofal cartref*







Mae Tabl 2 yn dangos bod nifer debyg o weithwyr gofal cartref ar draws pob grŵp oedran.

*Tabl 2 – Oedran gweithwyr gofal cartref*

| Grŵp oedran | Nifer y gweithwyr | Canran y gweithwyr |
|---|---|---|
| O dan 25 | 1,797 | 9% |
| 25-30 | 2,471 | 13% |
| 31-35 | 2,028 | 10% |
| 36-40 | 1,797 | 9% |
| 41-45 | 1,669 | 8% |
| 46-50 | 2,242 | 11% |
| 51-55 | 2,698 | 14% |
| 56-60 | 2,587 | 13% |
| 61-65 | 1,733 | 9% |
| Dros 65 | 615 | 3% |
| **Cyfanswm** | **19,637** | **100%** |

*Ffigur 2 – Oedran gweithwyr gofal cartref*



# 3. Cymwysterau gweithwyr gofal cartref

I gofrestru, roedd yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol naill ai feddu ar gymhwyster ymarfer addas, neu gael datganiad gan eu rheolwr yn cadarnhau eu profiad os oeddent wedi gweithio am dair o'r pum mlynedd diwethaf mewn swydd gofal cymdeithasol berthnasol, neu gwblhau llwybr sefydlu. Rhaid i weithwyr a gofrestrodd ar sail sefydlu gwblhau cymhwyster ymarfer o fewn tair blynedd.

Mae Tabl 3 yn dangos bod mwyafrif y gweithwyr yn dal cymhwyster, gyda llai ohonynt yn cofrestru ar sail sefydlu neu gyda chadarnhad o'u cymhwysedd gan eu rheolwr.


*Tabl 3 – Llwybr cymhwyso y mae gweithwyr gofal cartref wedi'i ddilyn i gofrestru*

| Llwybr cymhwyso wedi'i ddilyn i gofrestru | Nifer y gweithwyr | Canran y gweithwyr |
|---|---|---|
| Wedi cymhwyso | 12,592 | 64% |
| Sefydlu | 4,244 | 22% |
| Cymhwysedd wedi'i gadarnhau gan y cyflogwr | 2,801 | 14% |
| **Cyfanswm** | **19,637** | **100%** |

Mae Ffigur 3 yn dangos canran y gweithwyr ym mhob grŵp oedran gan ddefnyddio'r llwybrau uchod i gofrestru. Roedd mwyafrif y gweithwyr o dan 25 oed wedi cwblhau sefydlu gan nad oedd ganddynt gymhwyster na digon o brofiad i'w rheolwr gadarnhau'u cymhwysedd. Ym mhob grŵp oedran arall, mae'r mwyafrif wedi cymhwyso.



*Ffigur 3 – Llwybr cymhwyso a ddilynwyd i gofrestru, yn ôl grŵp oedran*




Mae Tabl 4 yn dangos bod y mwyafrif sydd wedi cymhwyso yn dal cymhwyster lefel 2 neu 3. O'r rheiny sydd wedi cofrestru gan ddefnyddio llwybr sefydlu, roedd y mwyafrif ohonynt wedi cwblhau Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru, yn hytrach na Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan.

*Tabl 4 – Cymwysterau y mae gweithwyr gofal cartref yn eu dal*

| **Cofrestru gyda chymhwysedd wedi'i gadarnhau** | **Nifer y gweithwyr** | **Canran y gweithwyr** |
|---|---|---|
| Cymhwysedd wedi'i gadarnhau gan y cyflogwr | 2,801 | 14.3% |
| **Cyfanswm wedi cofrestru gyda chymhwysedd wedi'i gadarnhau** | **2,801** | **14.3%** |
| **Cofrestru gyda sefydlu** | **Nifer y gweithwyr** | **Canran y gweithwyr** |
| Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd Gofal Cymdeithasol Cymru | 4,215 | 21.5% |
| Cwblhau'r fframwaith sefydlu | 29 | 0.1% |
| **Cyfanswm wedi cofrestru gyda sefydlu** | **4,244** | **21.6%** |
| **Cofrestru gyda chymhwyster** | **Nifer y gweithwyr** | **Canran y gweithwyr** |
| QCF/NVQ Lefel 2 | 7,201 | 36.7% |
| QCF/NVQ Lefel 3 | 4,273 | 21.8% |
| QCF/NVQ Lefel 5 | 368 | 1.9% |
| Dyfarniad Lefel 2 ar gyfer Sefydlu Gofal Cymdeithasol (Cymru) | 346 | 1.8% |
| NVQ Lefel 4 | 223 | 1.1% |
| Cymhwyster Lefel 2/3 (Lloegr) | 96 | 0.5% |
| Cymhwyster gwaith cymdeithasol | 44 | 0.2% |
| Nyrs gofrestredig lefel gyntaf | 41 | 0.2% |
| **Cyfanswm wedi cofrestru gyda chymhwyster** | **12,592** | **64.1%** |
| **Cyfanswm** | **19,637** | **100.0%** |

# 4. Cyflogaeth gweithwyr gofal cartref

Mae'r rhan fwyaf o weithwyr gofal cartref ar y Gofrestr yn cael eu cyflogi ym maes gofal cymdeithasol, fel y dangosir yn nhabl 5.

*Tabl 5 – Statws cyflogaeth gweithwyr gofal cartref*

| Statws cyflogaeth | Nifer y gweithwyr | Canran y gweithwyr |
|---|---|---|
| Wedi'u cyflogi ym maes gofal cymdeithasol | 19,312 | 98.3% |
| Hunangyflogedig ym maes gofal cymdeithasol | 195 | 1.0% |
| Ar secondiad ym maes gofal cymdeithasol | 4 | 0.02% |
| **Cyfanswm mewn cyflogaeth** | **19,511** | **99.4%** |
| Nid ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd/ Nid yw eu cyflogaeth yn hysbys | 126 | 0.6% |
| **Cyfanswm** | **19,637** | **100%** |


Mae Tabl 6 yn dangos mai'r sector preifat sy'n cyflogi'r ganran fwyaf o weithwyr gofal cartref (48 y cant), yna'r trydydd sector i ddilyn. Caiff bron i 20 y cant o weithwyr eu cyflogi'n uniongyrchol gan awdurdod lleol.

*Tabl 6 – Ym mha sectorau y mae gweithwyr gofal cartref yn cael eu cyflogi*

| Sector | Nifer y gweithwyr | Canran y gweithwyr |
|---|---|---|
| Preifat | 9,371 | 48.0% |
| Trydydd sector | 6,002 | 30.8% |
| Awdurdod lleol – gwasanaethau cymdeithasol | 3,817 | 19.6% |
| Asiantaeth recriwtio/Asiantaeth cyflogaeth | 222 | 1.1% |
| Iechyd | 82 | 0.4% |
| Arall | 17 | 0.1% |
| **Cyfanswm** | **19,511** | **100%** |

Mae Ffigur 4 yn dangos bod 44 y cant o weithwyr wedi dechrau yn eu rôl bresennol o fewn y tair blynedd diwethaf. Mae 40 y cant wedi bod yn yr un rôl gyda'u cyflogwr ers dros pum mlynedd, ac 20 y cant ers dros 10 mlynedd.

*Ffigur 4 – Y cyfnod mae gweithwyr gofal cartref wedi bod yn eu swydd bresennol*






Mae Tabl 7 yn dangos ym mhle yng Nghymru y caiff gweithwyr gofal cartref eu cyflogi, gan fod rhaid i ni ddangos ar y Gofrestr ym mha sir y cânt eu cyflogi. Hefyd, mae'r tabl yn cynnwys amcangyfrif o ffigurau'r boblogaeth ar gyfer pob sir[1].

Mae'r nifer fwyaf o weithwyr yn cael eu cyflogi yng Nghaerdydd (12.7 y cant o weithwyr), Ynys Môn (11.2 y cant) a Rhondda Cynon Taf (8.4 y cant). Mae'r nifer lleiaf yn gweithio ym Merthyr Tudful, Abertawe a Cheredigion.

Y sir gyda'r nifer fwyaf o weithwyr o gymharu â'i phoblogaeth yw Ynys Môn, a'r sir gyda'r nifer lleiaf yw Abertawe. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod llawer o bobl yn gweithio dros ffiniau siroedd.

*Tabl 7 – Ymhle y caiff gweithwyr gofal cartref eu cyflogi*

| Sir eu cyflogaeth | Nifer y gweithwyr | Canran y gweithwyr | Poblogaeth | Canran o boblogaeth Cymru |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 706 | 3.6% | 69,862 | 2.2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 917 | 4.7% | 147,049 | 4.7% |
| Caerffili | 1,265 | 6.5% | 181,075 | 5.7% |
| Caerdydd | 2,479 | 12.7% | 366,903 | 11.6% |
| Sir Gaerfyrddin | 1,200 | 6.2% | 188,771 | 6.0% |
| Ceredigion | 258 | 1.3% | 72,695 | 2.3% |
| Conwy | 784 | 4.0% | 117,203 | 3.7% |
| Sir Ddinbych | 539 | 2.8% | 95,696 | 3.0% |
| Sir y Fflint | 933 | 4.8% | 156,100 | 5.0% |
| Gwynedd | 1,263 | 6.5% | 124,560 | 4.0% |
| Ynys Môn | 449 | 2.3% | 70,043 | 2.2% |
| Merthyr Tudful | 56 | 0.3% | 60,326 | 1.9% |
| Sir Fynwy | 538 | 2.8% | 94,590 | 3.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 417 | 2.1% | 143,315 | 4.5% |
| Casnewydd | 598 | 3.1% | 154,676 | 4.9% |
| Sir Benfro | 695 | 3.6% | 125,818 | 4.0% |
| Powys | 595 | 3.0% | 132,435 | 4.2% |
| Rhondda Cynon Taf | 1,637 | 8.4% | 241,264 | 7.7% |
| Abertawe | 1,931 | 9.9% | 246,993 | 7.8% |
| Torfaen | 721 | 3.7% | 93,961 | 3.0% |
| Bro Morgannwg | 451 | 2.3% | 133,587 | 4.2% |
| Wrecsam | 607 | 3.1% | 135,957 | 4.3% |
| Ddim yn hysbys / Tu allan i Gymru | 472 | 2.4% | dd/b | dd/b |
| **Cyfanswm** | **19,511** | **100%** | **3,152,879** | **100%** |

1. Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn, y Swyddfa YStadegau Gwladol. Cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, Mai 2020.

# 5. Amrywiaeth gweithwyr gofal cartref

## Gallu'r Gymraeg

Darparodd 90 y cant o weithwyr wybodaeth am eu gallu o ran y Gymraeg. O'r rhain, roedd 10 y cant yn siarad Cymraeg yn rhugl, roedd 26 y cant yn siarad rhywfaint o Gymraeg ac nid oedd 64 y cant yn siarad Cymraeg o gwbl.

## Ethnigrwydd

Darparodd 90 y cant o weithwyr wybodaeth am eu hethnigrwydd. O'r rhain, roedd 96.5 y cant ohonynt yn wyn, yn wyn Prydeinig, yn wyn Cymreig neu'n wyn Gwyddelig o gymharu â 94.1 y cant o boblogaeth Cymru gyfan[2]. Roedd y 3.5 y cant sy'n weddill yn dod o gefndiroedd eraill neu gefndiroedd ethnig cymysg.

## Anabledd

Darparodd 91 y cant o weithwyr wybodaeth am anabledd. O'r rhain, roedd 1.3 y cant yn ystyried eu bod yn anabl.

## Cyfeiriadedd rhywiol

Darparodd 85 y cant o weithwyr wybodaeth am eu cyfeiriadedd rhywiol. O'r rhain, dywedodd 96.5 y cant eu bod yn heterorywiol neu'n syth, a dywedodd 3.5 y cant eu bod yn lesbiaidd, hoyw neu ddeurywiol.

## Crefydd

Darparodd 81 y cant o weithwyr wybodaeth am eu crefydd. O'r rhain, dywedodd 56.8 y cant nad oedd ganddynt grefydd neu eu bod yn anffyddwyr. Roedd 36.6 y cant yn Gristnogion, ac roedd gan 6.7 y cant amrywiaeth o gredoau eraill.

2. Arolwg Llafurlu Lleol Cymru/Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Llywodraeth Cymru Mawrth 2020